Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

21 Chwefror 2020

Annwyl Ken,

Cytundeb ar Wasanaethau Awyr rhwng y DU a Montenegro

Fel rhan o'i waith craffu ar gytundebau rhyngwladol, trafododd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cytundeb ar Wasanaethau Awyr rhwng y DU a Montenegro yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd 2019.

Cadarnhaodd ein hasesiad o'r Cytundeb fod y Cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae cytundebau ar wasanaethau awyr o ddiddordeb arbennig i Gymru gan mai Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar Faes Awyr Caerdydd, ac oherwydd pwysigrwydd ehangach meysydd awyr Lloegr i gysylltedd Cymru. Er gwaethaf y diddordeb hwn, nodwn na chyfeirir at unrhyw ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru wrth drafod y cytundeb hwn. A fyddech cystal â rhoi gwybodaeth i gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r broses drafod ar gyfer cytundebau ar wasanaethau awyr, ac a ydych yn fodlon ar ddull gweithredu Llywodraeth y DU? Bydd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Pwyllgor i asesu cytundebau yn y dyfodol.

Yn gywir,



David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
0300 200 6565